

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 24^{AIN} TACHWEDD 2021
YNG NGHANOLFAN BRO CERNYW

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Ann Vaughan (AV), Gwynfor Davies (GD), Diane Roberts (DR), Eimir Williams (EW) & Mark Davies (MD)

1.3 Ymddiheuriadau: Garffild Ll Lewis (GLL) & Gwydion Jones (GJ)

1.4 Absennol: R. Emlyn Williams (REW) & Gwyn Williams (GW)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

AV yn datgan diddordeb gyda 7.1 gan fod trafodaeth wedi digwydd.

3 COFNODION I'W GWIRO 27^{AIN} HYDREF 2021

DR – angen cywiro 8.4 i na gynyrchiolydd Tai Clwyd Alyn oedd yn rhoi'r cyflwyniad a staff Clwyd Alyn sydd yn treialu'r gwaith.

Ffigwr yn y biliau a dyddiad y pwyllgor. Cofnodion wedi eu cywiro.

Cynnigwyd yn gywir gan DR ac eilwyd gan MD.

4 MATERION YN CODI

5: CR wedi cysylltu efo Kevin Roberts yn gofyn os yw'n fodlon ymgymryd a'r gwaith a gofyn am bris.

5: CR wedi ateb y llythyr, wedi cael ymateb yn gofyn os oedd modd cael gwn cyflymdra.

GD yn gofyn os yw llwybr Pen y Bryn wedi ei gau, CR wedi cysylltu efo'r Cyngor Sir. GD wedi sylwi fod rhwystr wedi ei osod ond ddim wedi gweld arwydd.

GD yn gofyn os oedd unrhyw ddiweddariad ynglyn a'r Hen Ficerdy, digwyddiad wedi bod yn ddiweddar, mae'n debyg fod rhywrai wedi bod yno'n dwyn plwm o'r tô. Gweler adroddiad GLL yn 8 isod. Trafodaeth fod ffens wedi ei osod o amgylch y safle, ond dim diweddariad ynglyn â'r dogfennau personol godwyd yn y cyfarfod diwethaf, CR wedi cysylltu efo GLL ynglyn â hyn.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 0/49086: Nodi fod y safle yn infill. Cymeradwyo.

6 MATERION ARIANNOL

DR yn codi fod angen cael dogfennau ariannol yn barod cyn gynted a phosibl er mwyn paratoi'r presept ym mis Ionawr.

7 MATERION Y CYNGOR

7.1 Bute Energy: *wedi ei drafod cyn 3 uchod gan fod aelodau'r cyhoedd wedi mynychu ar gyfer 7.1*

CR yn adrodd nad yw'r cynyrchiolydd o Bute Energy wedi gallu mynychu heno oherwydd ymrwymadau eraill, ceisio ail-drefnu'r cyfarfod yn gynnar yn y flwyddyn newydd. CR yn darllen ebost wedi ei dderbyn gan Naomi Williams ar ran Bute Energy. DR yn cynnig cyfieithu'r ebost a'i yrru ymlaen i aelodau'r cyhoedd oedd wedi mynychu gan fod yr ebost yn uniaith Gymraeg.

CR yn nodi fod angen i'r presept gael ei drafod ym mis Ionawr. Cynnig cael cyfarfod cyhoeddus arwahan i bwyllgor y Cyngor.

CR yn gofyn os oedd Non Davies eisiau siarad. *AV yn datgan diddordeb gan fod y mater yn cael ei drafod. Non Davies yn siomedig nad oedd Bute Energy wedi mynychu'r cyfarfod. Codi ei bod wedi cyfarfod gyda sawl cynrychiolydd o Bute Energy yn barod, teimlo fod angen gweithio gyda'i gilydd.

MD yn cynnig pwyllgor cyhoeddus, DR & GD yn eilio. CR am ofyn wrth Bute Energy am ddyddiad fuasai'n gyfleus iddynt.

Non Davies yn gofyn sut mae'r Cyngor am hysbysu'r cyhoedd o gyfarfod gyhoeddus. Angen cyfyngu niferoedd fydd yn cael mynychu'r cyfarfod oherwydd Covid-19. MD yn gofyn os bydd cynrychiolaeth o Gynghorau Bro eraill. Non Davies o'r farn fod angen i'r pentrefi cyfagos gael cyfarfodydd eu hunain gyda Bute Energy.

Aelodau o'r cyhoedd (Julia Parry, Arthur Jones & Non Davies) yn gwneud datganiadau.

Diolchodd CR i aelodau'r cyhoedd sydd wedi mynychu heno. Non Davies yn gofyn sut fydd y cyfarfod cyhoeddus yn cael ei hysbysu, CR yn nodi y buasai hysbys yn cael ei roi yn y papur bro.

Diolchodd CR i EW am gysylltu efo aelodau'r cyhoedd i gyd drwy ebost. Cydnabod fod EW yn delio efo ebyst y Cyngor i gyda diolchwyd iddi am hynnu.

7.2 Brook House: Peter Wood yn adran gynllunio'r Cyngor Sir wedi derbyn llythyr gan rhywun yn adrodd fod anedd wedi bod ar y safle. DR yn trafod eto ei bod wedi gwneud ymchwil gyda trigolion oedranus yn yr ardal ond nad oes anedd erioed wedi bod yno ond adeilad gwaith. Trafodaeth am y cais. CR wedi bod yn gwneud ymchwil, nid yw'r gwaith wedi amharu'r llwybr cyhoeddus. Os yw'r cais yma'n cael ei gymeradwyo, mae'n debyg fod hwn yn agor i drws i geisiadau tebyg. Teimlad cryf fod sawl teulu lleol wedi gwneud ceisiadau i wneud hen murdyn yn dŷ wedi ei wrthod. CR am gysylltu eto efo'r adran gynllunio.

7.3 Diffibrilydd: EW wedi bod ar gwrs cymorth cyntaf yn ddiweddar a fod y person oedd yn cynnal y cwrs wedi sylwi fod y diffibrilydd oedd tu allan i'r lleoliad allan o ddyddiad. Gofyn os fuasai'n syniad i'r Cyngor gysylltu efo sefydliadau sydd efo diffibrilyddion os ydynt dal mewn dyddiad, y batri'n gweithio a newid y padiau ayyb ac hefyd os ydynt yn gysylltiedig efo'r Gwasanaeth Ambiwlans. EW yn teimlo fod angen codi ymwybyddiaeth o hyn yn y tri pentref. EW am wneud ymholiadau am un Gwytherin, CR yn Llangernyw a GD ym Mhandy Tudur. Diolchwyd i EW am godi'r mater.

8 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Wedi ei dderbyn yn absennoldeb GLL:

"Does gen i ddim llawer i'w ychwanegu i'r adroddiad diwethaf, dim ond 2 ddiweddariad:

- Rydw'i wedi cael amserlen newydd i'r gwaith ar y Bont Faen. Mae'r Cyngor bellach wedi llwyddo i gael y deunydd sydd ei angen, ac mae'r gwaith wedi ail-ddechrau. Yn ôl yr amserlen newydd, fe ddylai'r gwaith gael ei gwblhau a'r ffordd ail agor yr wythnos yn dechrau y 10fed o Ionawr.
- Yn anffodus mae'r gwaith o ddymchwel a diogelu safle'r Hen Ficerdy wedi ei ohirio dros dro, er mwyn i'r perchennog a'r Cyngor Sir gwblhau proses caniatad Cynllunio i ddymchwel. Fe allai hynny olygu cryn oedi, a rydw'i wedi ysgrifennu at y perchennog i'w atgoffa yn y cyfamser mai ei gyfrifoldeb o yw gwneud y safle yn ddiogel a chau'r fynedfa."

9 BILIAU

9.1 Enlli: £132.57, cytunwyd i dalu.

9.2 AV: £34.42, cytunwyd i dalu. Adroddodd AV ei bod wedi gwneud cais am grant. Diolchodd i bawb am wneud y gwaith gwirfoddol.

10 MATERION LLEOL

DR codi fod twll ar waelod ffordd Tyn Pistyll, am hysbysu'r Cyngor.

Aelod o'r cyhoedd wedi gofyn os oes modd rhoi mainc mewn lleoliad arall ym mynwent Llangernyw gan fod yr un sydd yno ddim mewn lleoliad addas gan fod dim llwybr yn mynd ati. **CR** am fynd i edrych ar gyflwr y fainc bresennol gan fod DR wedi adrodd nad yw'n saff ar hyn o bryd. **CR** am drafod efo REW i edrych ar fap y fynwent i weld lle arall fuasai'n addas gan fod hen feddi heb garreg.

Baw ci dal i fod yn broblem yn Pandy Tudur. **DR** wedi bod ac arwyddion i Pandy Tudur yn ddiweddar. Cwyn fod baw ci ger giat y parc yn Pandy Tudur hefyd. Warden Cŵn dal ddim yn dod allan i'r gymuned ar hyn o bryd.

AV wedi sylwi fod llawer o bobl yn mynd a cŵn am dro drwy'r fynwent. Gofyn os fuasai'n syniad rhoi arwydd mwy dim cŵn ond ddim yn siwr beth oedd polisi'r eglwys.

CR wedi derbyn llythyr gan Adran Amgylchedd a Chyfleusterau, wedi gweld clefyd coed ger y toiledau cyhoeddus. Mae'n debyg na'r Eglwys sydd berchen y tir, **AV** yn adrodd fod coeden wedi cael ei thorri'n ddiweddar yno.

EW diolch i'r trigolion wnaeth gysylltu i ofyn caniatad i fynychu'r cyfarfod heno gan ddilyn y broses gywir.

Ywen Gwytherin: **GLL** wedi bod mewn cyswllt efo swyddog y Cyngor rhagofn y buasant yn gallu gwneud ymholiadau ynglyn a diogelwch y goeden. **EW** am wneud ymholiadau am brisiau i wneud archwiliad o'r goden.

Dim adborth wedi dod yn dilyn awdit blynyddol llynedd nac eleni.

Laptop i'r Cyngor, mater yma wedi ei basio mewn cyfarfod blaenorol i brynu laptop/chromebook ar ran y Cyngor. **EW** am wneud ymholiadau ynglyn a prisiau ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

GD hefyd yn codi gan fod cymaint o filiau yn cael eu derbyn ar y wê bellach, buasai hyn yn syniad da i alluogi eu ffeilio ar y laptop.

11 CYFARFOD NESAF

15^{fed} Rhagfyr 2021 yng Nghanolfan Gwytherin (yn y Neuadd)

Cyfarfod yn dod i ben 9:30pm

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan